

7 Rhagfyr 2010

Cyflawniad pobl 15 mlwydd oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2009

Mae'r ystadegau hyn, a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, yn dangos gallu disgyblion mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth.

Cynhelir PISA bob tair blynedd. Yn 2009, cafwyd canlyniadau gan 132 ysgol a thros 3,000 o ddisgyblion yng Nghymru. Cymerodd 65 o wledydd ran yn yr astudiaeth, gan gynnwys 33 o wledydd sy'n aelodau OECD.

Pwyntiau allweddol

Darllen

- 476 oedd sgôr cyfartalog disgyblion yng Nghymru, yn arwyddocaol is na sgôr cyfartaledd OECD o 493. 481 oedd sgôr cyfartalog Cymru yn 2006.
- Roedd sgôr Cymru yn 38ain yn rhyngwladol (wrth edrych ar y DU ar wahân), o'i gymharu â 30ain yn 2006.

Mathemateg

- 472 oedd sgôr cyfartalog disgyblion yng Nghymru, yn arwyddocaol is na sgôr cyfartaledd OECD o 496. 484 oedd sgôr cyfartalog Cymru yn 2006.
- Roedd sgôr Cymru yn 40fed yn rhyngwladol (wrth edrych ar y DU ar wahân), o'i gymharu â 34ain yn 2006.

Gwyddoniaeth

- 496 oedd sgôr cyfartalog disgyblion yng Nghymru, yn debyg i gyfartaledd OECD o 501. 505 oedd sgôr cyfartalog Cymru yn 2006.
- Roedd sgôr Cymru yn 30ain yn rhyngwladol (wrth edrych ar y DU ar wahân), o'i gymharu â 22fed yn 2006.

Gwahaniaeth rhwng y rhywiau

- Perfformiodd bechgyn yn well na'r merched mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth, ond ddim mewn Darl.

Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach am PISA ar gael ar [wefan OECD](#).

[Gwefan National Foundation for Educational Research: Programme for International Student Assessment](#)

Cyswllt

Ffôn: 029 2082 5060

Ebost: ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk